# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 13/09/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

| | | | |
|---|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cad) | David Andrew Parry | Greta Hughes | Alaw Ceris |
| Gwenllian Davenport Hughes | Ian Goronwy Williams | Thomas Victor Jones | William Roger Jones |
| William Penri Jones | Alan Harper-Smith | Ann L Williams (Cyfieithydd) | Pat Humphreys (Clerc) |

**Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**
Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. **Ymddiheuriadau**
   Dim.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**
   Dim.

3. **Cofnodion Pwyllgor 26/07/2021**
   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
   Cynnig: David Andrew Parry   Eilio: Ian Goronwy Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim.

5. **Ymgynghoriad llinellau melyn dwbl ar fynedfa Cysgod y Cwmwd.**
   Derbyniwyd ymgynghoriad gan y Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau Cyngor Gwynedd ar gyflwyno cyfyngiadau parcio sef llinellau melyn dwbwl ar y ddwy ochor i fynedfa Ystad Cysgod y Cwmwd. Mae hyn wedi cael ei drafod yn y pwyllgor diwethaf ac mae'r clerc wedi bod mewn cysylltiad â Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt roi llinellau melyn dwbwl yn y fan yma felly mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cyfyngiadau ond hefo cais i ymestyn y llinellau melyn dwbwl ar ochor y traeth yr un faint a'r ochor arall oherwydd ar y map a gafodd ei atodi gyda'r llythyr mae'r llinellau melyn dwbwl yn ymestyn yn hirach ar hyd y lôn at y garej nac ydynt yr ochor arall ac fe ddylai'r ddwy ochor fod yr un fath.
   Mater arall a gafodd ei godi yn y pwyllgor diwethaf oedd y llinellau melyn dwbwl o flaen yr ysgol ac mae'r clerc wedi bod mewn cysylltiad hefo Cyngor Gwynedd yn gofyn pa bryd y maent am eu rhoi o flaen yr ysgol ond heb gael ymateb hyd yn hyn. Mae Thomas Victor Jones wedi siarad hefo Swyddog o'r Adran Briffyrdd yn ddiweddar sydd wedi rhoi eglurhad ar y mater ond yn ein cynghori i gysylltu hefo Adran Priffyrdd eto ynghlŷn â'r mater. Pwysleisiodd Alaw Ceris fod brys mawr i hyn oherwydd fod yr ysgol wedi ail agor a bod y sefyllfa y tu allan i'r ysgol wrth godi plant i fyny yn beryglus ofnadwy, mae hi hefyd wedi dwyn sylw'r cynghorydd lleol at y mater er mwyn cael datrusiad.
   Penderfyniad: y clerc i gysylltu gyda'r swyddog eto a lincio'r pennaeth i mewn i'r ebost gan nad ydym wedi cael ymateb a pwysleisio difrifoldeb y sefyllfa.

6. **ICO – Swyddog Diolgelu Data**

Mae'r clerc wedi sylwi mai manylion cyswllt ar gyfer y Swyddog Diogelu Data sydd ar Dystysgrif Cyngor Cymuned Llanbedrog yw Mrs Angela Russell ac nid yw hi ar y Cyngor Cymuned bellach felly mae angen newid yr enw i aelod cyfredol o'r Cyngor Cymuned.
Cynigiodd William Penri Jones i roi enw Alaw Ceris i lawr ac fe eiliodd Thomas Victor Jones ond gwrthododd Alaw Ceris gan fod ganddi ormod ar ei phlat ar y funud.
Cynigodd Thomas Victor Jones i roi enw Ian Goronwy Williams i lawr ac fe eiliodd Gwenllian Davenport Hughes, cytunodd pawb a derbyniodd Ian Goronwy Williams.

**7. Llyfr Cofnodion**

Mae'r llyfr cofnodion bron a dod i ben ac mae'r clerc eisiau cadarnhad bod angen cael un newydd.
Penderfyniad: y clerc i gario ymlaen i brintio'r cofnodion a'u gludo i'r llyfr cofnodion, felly i brynu llyfr newydd a mynd i ofyn i Ashley archebu un gan fod ganddom gyfrif yno.

**8. Gweithiwr achlysurol**

Yn dilyn rhoi hysbyseb ar gweplyfr yn gofyn am weithiwr achlysurol yn lle Stuart Livingstone derbyniodd y cadeirydd neges gan Roger Fisher o Cynsail Llanbedrog yn dweud ei fod yn awyddus i helpu hefo'r gwaith. Gan ei fod wedi ymddeol nid oes ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus felly fe gysylltodd y clerc hefo Zurich i ofyn a fyddai modd ei ychwanegu i yswiriant y Cyngor Cymuned. Rhoddwyd amcangyfrif o'i dâl am y flwyddyn sef oddeutu £3,000.00 a cafwyd cadarnhad gan Zurich y byddai modd ei ychwanegu i yswiriant y Cyngor Cymuned ac ni fyddai cost am wneud hyn. Cytunodd pawb i'r cadeirydd gysylltu hefo fo a gofyn iddo gychwyn cyn gynted a bo'r modd.
Cafwyd cais gan William Roger Jones i'r Cyngor Cymuned yrru llythyr i berchnogion Glyn y Weddw i ddiolch iddynt am wneud ymdrech hefo'r arddangosfa blodau sydd ganddynt yn y maes parcio, maent yn werth eu gweld ac mae angen diolch iddynt fynd i drafferth bob blwyddyn ac ychwangeu cymaint at y pentref.
Penderfyniad: y clerc i yrru llythyr o ddiolch iddynt.
Cynnig: William Roger Jones Eilio: William Penri Jones

**9. Llwybrau**

Rhoddodd y cadeirydd ddiweddariad i'r aelodau ar sefyllfa y llwybrau dros yr haf.
Mae'r giat gwaelod llwybr drwy'r Nant wedi torri ac mae'r clerc wedi anfon neges i'r adran lwybrau ac maent wedi bod yn nôl y gait i'w thrwsio a thra bod honno yn cael ei thrwsio maent wedi symud y giat top i'r gwaelod o ran diogelwch. Unwaith fydd y giat gwaelod yn ei hôl yna bydd y giat arall yn cael ei symud yn ôl i'r top.
Mae nifer o gamfeydd a ffensys ar lwybr rhif 6 o Henllys Uchaf i fyny i Foel Newydd dros wŷl y banc wedi cael eu malurio, mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r adran lwybrau ond heb gael ymateb eto.
Mae Pozzi wedi torri y llwybrau a ddywedodd y clerc wrtho nôl ym mis Gorffennaf ac Awst am eu torri oherwydd gor-dyfiant.
Fe fydd angen edrych ar y cytundeb torri llwybrau a'r llecynnau y flwyddyn nesaf gan eu bod angen eu torri yn amlach nac y maent yn cael eu torri ar hyn o bryd.
Yn Cae Hendy o flaen y cae chwarae mae dipyn o olwg yna a'r llwybr sydd yn mynd o llwybr drwy'r Nant i Cae Hendy sef lawr at byngalo rhif 25 mae yna goed wedi cael eu plannu ar hyd y ffens ac yn amharu ar y llwybr, dim y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am y llwybr yma felly gofynwyd i'r clerc gysylltu hefo adran llwybrau Cyngor Gwynedd i gwyno amdano.

Derbyniwyd cwyn gan Alaw Ceris am y palmant sydd yn mynd o Craig y Glyn i adeilad Johnny Mynytho ar lôn Abersoch fod tyfiant wedi tyfu dros y palmant ac yn ei gwneud yn beryglus iawn i'w gerdded, ac ategodd Ian Goronwy Williams fod y palmant nes ymlaen at Abersoch o tŷ 'Llanbedrog Riding School' at lôn Tyn Tywyn yr un fath hefyd, felly mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gwyno amdanynt.
Cafwyd diweddariad gan y clerc am y llwybr tân ar Mynydd Tir Cwmwd sef fod Meirion Evans o Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud eu bod rhy brysur i dorri'r llwybr yma ym mis Awst ond eu bod am drio ei dorri ym mis Medi ac mae Thomas Victor Jones wedi dweud ei fod yn fodlon cyfarfod Meirion Evans ar y safle pan fyddent yn barod i dorri'r llwybr.

**10. Y Fynwent**

Mae'r clerc wedi agor cyfrif cyfredol yn Nat West er mwyn cael mynediad i arian y fynwent sydd yn y cyfrif cynilo. Oherwydd fod y cyfrif wedi cael ei agor ar lein dim ond enw y clerc sydd i lawr i arwyddo sieciau felly mae angen penderfynnu pwy sydd i arwyddo er mwyn newid y mandad. Hefyd mae'r clerc wedi cael mynediad i'r bancio ar lein ond angen i'r tim busnes Nat West lincio'r cyfrif cynilo hefo'r cyfrif cyfredol fel bod modd trosglwyddo arian o un i'r llall i dalu anfonebion Pozzi am gynnal a chadw'r fynwent.
Penderfyniad: Cael yr un tri i arwyddo ar y cyfrif cyfredol a cynilo yn Nat West ac sydd yn arwyddo ar y cyfrif cyfredol yn Lloyds sef John Brinley Jones, David Andrew Parry a Claire Russell-Griffiths. Y clerc i drefnu cael mandad i newid hyn ac i lincio'r cyfrifon ar lein.
Cynnig: David Andrew Parry Eilio: William Roger Jones
Cafwyd ymholiad gan Alaw Ceris ynglŷn â'r coed wrth ymyl y fynwent a pwy sydd gyfrifol amdanynt ac yn benodol eu bod mewn stad bregus ac yn gallu amharu ar y fynwent. Perchnogion Tall Trees sydd yn gyfrifol amdanynt ac mae Alaw Ceris am gysylltu hefo nhw.

**11. Cae Chwarae**

Mae'r cadeirydd wedi bod yn y cae chwarae cyn y cyfarfod heno ac mae golwg difrifol yno, mae rhywun wedi gadael gwely 'foam' yno ac mae o wedi cael ei falu a'i chwthu dros y cae chwarae i gyd, a caniau a poteli plastic wedi cael eu gadael yno hefyd.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Adran Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd i gwyno amdano fel tipio anghyfreithlon.
Mae Dylan Ty'n Lôn wedi rhoi pris am dorri'r Japanese Knotweed sef £135 ac mae wedi cadarnhau y bydd wedi ei orffen cyn y penwythnos.
Derbyniodd y clerc ebost gan ddynes sydd wedi cael cynnig 26 Cae Hendy fel tŷ Cyngor ac mae'n pryderu am y llecyn dros y ffordd i ardd y tŷ oherwydd ei fod wedi tyfu'n wyllt ac mae hi ofn y bydd llygod mawr yn dod oddi yno i'r ardd. Mae'r cadeirydd wedi bod yno yn cael golwg a rhan o'r cae chwarae sydd ddim yn cael ei dorri'n amal yw'r llecyn yma ond pan fydd y cae chwarae yn cael ei ail wneud fe fydd hwn yn cael ei glirio a'i dorri'n rheolaidd. Y clerc i gysylltu hefo'r ddynes yma i ateb ei phryderon.
Gan fod y llecyn yma yn y cae chwarae wedi caei ei ffensio i ffwrdd mae Alaw Ceris yn bryderus ynglŷn â'i berchnogaeth felly mae'r clerc am gysylltu hefo Ieuan Ellis Owen i gael map o'r cae chwarae sydd hefo'r gweithredoedd yn ei swyddfa.

Bu'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn trwsio ffens y cae chwarae chydig wythnosau yn ôl ac mae'r map Scottish Power sy'n dangos lleoliad y wifren drydan o dan y ddaear yn hollol anghywir oherwydd wrth iddynt dyllu fe ddaethon ar draws y wifren mewn lleoliad gwahanol i beth a ddanghosir ar y map ac hefyd dim mor ddyfn a beth a ddanghosir ar y map. Mae hyn yn creu pryder mawr i'r aelodau ac fe fydd rhaid cael rhywun o Scottish Power allan i gael y mesuriadau cywir o ran dyfnder a lleoliad y wifren ac ail wneud y map oddi wrth y mesuriadau cywir. Gofynnodd Alan Harper-Smith os oedd y Cyngor Cymuned yn cael eu talu am y wifren o dan ddaear ond nid yw'r clerc wedi gweld dim taliad am y wifren dim ond am y polion sydd ar y tir felly fe fydd rhaid holi am hyn hefyd.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Scottish Power i drefnu cyfarfod safle a'r cadeirydd i yrru manylion cyswllt i'r clerc.

**12. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch
Dim diweddariad felly penderfynwyd i gario ymlaen i gyfarfod ar zoom.

**13. Neuadd y Pentref**
Mae 'superfast broadband' wedi cael ei roi yn y neuadd ers y pwyllgor diwethaf, fe gysylltodd y clerc hefo BT ac fe aeth y cadeirydd i'r neuadd i gyfarfod y contractwr ac ers 24ain o Awst mae bob dim yn ei le ac yn gweithio. Y gost bob mis yw £24.75 + vat ac yn cael ei dynnu drwy debyd uniongyrchol o gyfrif Cyngor Cymuned Llanbedrog. Fe fydd yn adnodd mawr i ddefnyddwyr y neuadd ac yn wasanaeth i'w gynnig i unrhyw un sy'n llogi y neuadd am gost ychwanegol. Pan fydd y Cyngor Cymuned yn ail gyfarfod yn y Neuadd mae hyn yn galluogi i'r cyfieithydd gyfieithu drwy zoom o adra yn hytrach na dod i'r neuadd ac yn cadw y costau i lawr i'r Cyngor Cymuned.

**Taliadau wedi eu Cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** Pat Humphreys | **£366.73** |
| **HMRC** PAYE Mis 4,5,6 | **£275.20** |
| **Ann Llwyd –** Cyfieithydd | **£125.00** |
| **Cyngor Gwynedd –** Cyfraniad Toiledau Cyhoeddus 2021-2022 | **£2,000.00** |
| **Stuart A. Livingstone** – Gwaith o amgylch pentref Llanbedrog | **£150.00** |
| **Cyngor Gwynedd** – Archwiliad Mewnol 2020-2021 | **£210.00** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| **Cyngor Gwynedd –** Praesept | **£11250.00** |

**Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0791/38/DT –** 12 Glyn y Mor, Llanbedrog – Ymestyn modurdy presennol ynghyd ag amrywiol addasiadau i'r eiddo.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Greta Hughes Eilio: David Andrew Parry

**Gohebiaeth**

1. **Clerks & Council Direct –** Newyddlen
2. **Un Llais Cymru –** Hyfforddiant
3. **ClLC -** 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru -** Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG -** AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru -** 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan ClLC
8. **ClLC -** 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru -** Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru -** Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

**Cais am gyfraniad**

1. **Macmillan Cancer Support –** cais am gyfraniad ariannol

Cafwyd diweddariad gan y clerc ynglŷn â'r gwyn a dderbyniwyd yn y pwyllgor diwethaf am gyflwr Lôn Bribwll. Mae'r clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd ac wedi cael ymateb eu bod am ddod i lenwi'r tyllau ond mai 'patcho' yn unig fydd yn cael ei wneud eto. Mae Lôn Bribwll ar y rhestr ail wynebu ers blynyddoedd ond mae yna lawer o ffyrdd eraill ar y rhestr mewn gwaeth cyflwr.

Gofynnod Alaw Ceris am ddiweddariad ynglŷn â y sefyllfa hefo Gwenllian Davenport Hughes yn dechrau fel cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol, ac fe atebodd drwy ddweud ei bod wedi bod mewn cysylltiad a'r ysgol ac maent am yrru gwybodaeth iddi am y ffurflen DBS ac mae cyfarfod ar y 21ain o Medi.

Gofynnodd Greta Hughes i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gwyno am gyflwr y lôn sy'n mynd lawr pasio talcian Glyn y Weddw Arms Tŷ Du i lawr am gyfeiriad y traeth, mae hi llawn tyllau ac yn berygl iawn.

Mae'r cadeirydd wedi sylwi dros wŷl y banc fod priodas yn yr eglwys a bod ceir wedi cael eu parcio ar y llecyn mwyniant, mae clo i fod ar y giat i atal hyn rhag digwydd felly mae'r cadeirydd am fynd yna i weld os oes clo ar y giat neu peidio, ac os nad oes clo arni fe fydd rhaid rhoi clo arni.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.17 y.h